DISGRIFIAD O RÔL AELODAU'R PWYLLGOR

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cael eu penodi i Bwyllgor yn unol ag Ordinhad 3 ni nodir yn wahanol mewn Statud neu'r Ordinhad.

Trosolwg o'r swydd

- Gweithio gyda'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol ac o fewn fframwaith cyfansoddiadol, rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol y Brifysgol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Wedi darllen papurau'r pwyllgor, i gyfrannu'n weithredol i'r Pwyllgor a chyfarfodydd perthnasol eraill yn unol â'r agenda a chyfarwyddiadau'r Cadeirydd, a'r Rheolau Sefydlog (Ordinhad 3)
2. I fod yn gyfarwydd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a dim ond i gynnig camau gweithredu sy'n disgyn o fewn ei gylch gwaith
3. Gwneud penderfyniadau ar y cyd er budd pennaf y Brifysgol, gan ddefnyddio gofal a sgil rhesymol
4. Bod yn gyfarwydd â nodau elusennol y Brifysgol a sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor yn cadw at y rhain ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Brifysgol.
5. Gweithredu yn unol â'r safonau ymddygiad sy'n dderbyniol mewn bywyd cyhoeddus
6. Hysbysu'r Cadeirydd am unrhyw fuddiannau posibl neu wrthdaro mewn busnes sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor ac i hysbysu Ysgrifennydd y Brifysgol am unrhyw fuddiannau cysylltiedig parhaus

Cefnogaeth a Chyngor Annibynnol

Gall Aelodau ofyn am gyngor gan Ysgrifennydd y Brifysgol, Cadeirydd y Pwyllgor neu'r tîm Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau.

Uwchgyfeirio Pryderon

Dylai aelod o'r Pwyllgor godi unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad unrhyw aelodau o'r pwyllgor neu ddyletswyddau'r Pwyllgor gyda Chadeirydd y Pwyllgor y maent yn eistedd arno. Os oes gydag ymddiriedolwr unrhyw bryder mewn perthynas â Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw dylent godi hyn gyda Chadeirydd y prif-bwyllgor.